

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd; y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

28 Mehefin 2024

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn gosod cyfyngiadau ar ragnodi analogau hormon sy'n rhyddhau gonadotroffin (GnRH) gan ymarferwyr cyffredinol y GIG yng Nghymru pan gânt eu defnyddio i atal y glasoed fel rhan o drin anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd ymhlith plant a phobl ifanc o dan 18 oed.

1.2 Yn ogystal â'r newidiadau sy'n cyfyngu ar ragnodi hormonau atal y glasoed, mae'r Rheoliadau'n gwneud un newid pellach i ddileu'r cyfyngiad presennol ar ragnodi tabledi fitamin B12 (cyanocobalamin) gan ymarferwyr cyffredinol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol o wasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc ("Adolygiad Cass") ym mis Ebrill. Comisiynwyd Adolygiad Cass gan GIG Lloegr ac mae'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan GIG Lloegr. Nid yw GIG Cymru yn darparu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc; yn hytrach mae'n eu comisiynu drwy GIG Lloegr. Felly, mae canfyddiadau Adolygiad Cass yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru i gleifion GIG Cymru.

2.2 Comisiynwyd Adolygiad Cass i wneud argymhellion ar sut i wella gwasanaethau hunaniaeth rhywedd y GIG a sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd neu sydd â dysfforia rhywedd yn cael gofal o safon uchel sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n ddiogel, yn holistaidd, ac yn effeithiol.

2.3 Ar y cyd â'r adolygiad, ymgynghorodd GIG Lloegr ar bolisi clinigol ar ddefnyddio hormonau atal y glasoed ("meddyginiaethau atal y glasoed") ac mae wedi gweithredu'r polisi hwnnw. Mae'r polisi'n ei gwneud yn glir na fydd y meddyginiaethau hyn yn cael eu rhagnodi bellach fel mater o drefn fel rhan o wasanaethau rhywedd plant a phobl ifanc y GIG o gofio'r dystiolaeth hynod o wan sy'n cefnogi eu defnydd ymhlith y rhai o dan 18 oed.

2.4 Gwnaeth Adolygiad Cass argymhellion penodol yn ymwneud â rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed i blant drwy wasanaethau rhywedd preifat y DU (h.y. rhai nad ydynt yn perthyn i'r GIG) a chan ragnodwyr tramor nad oeddent wedi'u cofrestru â rheoleiddwyr y DU, a'r angen i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU a rheoleiddwyr proffesiynol i sicrhau bod rhagnodi yn briodol ac yn cyd-fynd â pholisi diwygiedig y GIG.

2.5 Ar 29 Mai 2024 cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfyngiadau brys ar werthu neu gyflenwi hormonau atal y glasoed i blant a phobl ifanc gan ragnodwyr sy'n gweithio y tu allan i'r GIG. Daeth cyfyngiadau sy'n effeithio ar ragnodi preifat gan ragnodwyr cofrestredig yn y DU a'r tu allan i'r DU i rym ar 3 Mehefin 2024

2.6 Cafodd cyfyngiadau brys Llywodraeth y DU ar ragnodi preifat eu rhoi ar waith gan ddefnyddio pwerau a gedwir yn ôl ac maent yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.

2.7 Mae'r cyfyngiadau'n golygu ei bod bellach yn drosedd i feddyg, fferylllydd neu unrhyw unigolyn arall werthu neu gyflenwi analog GnRH i unrhyw un o dan 18 oed ac eithrio mewn amgylchiadau penodol. Bydd y cyfyngiadau'n effeithio ar bresgripsiynau preifat ar gyfer analogau GnRH a awdurdodir gan ragnodwyr cofrestredig o'r tu allan i'r DU a rhagnodwyr cofrestredig yn y DU er bod y ffordd yr effeithir arnynt yn wahanol yn dibynnu a yw'r rhagnodwr wedi'i gofrestru yn y DU neu beidio. Nid oedd y cyfyngiadau brys yn effeithio ar ragnodi gan y GIG.

2.8 Ochr yn ochr â'r cyfyngiadau brys, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant i'r Rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn Lloegr.

2.9 Daeth y Rheoliadau hyn i rym yn Lloegr ar 26 Mehefin 2024 a byddant yn gwahardd ymarferwyr cyffredinol y GIG yn Lloegr rhag ragnodi meddyginiaethau atal y glasoed i unrhyw un o dan 18 oed oni bai am y canlynol:

- Maent ar gyfer cyflwr heblaw anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd;
- Dechreuodd y claf gael triniaeth cyn 3 Mehefin 2024; neu
- Mae'r claf yn cael triniaeth fel rhan o dreial clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR).

2.10 Bydd cyflwyno cyfyngiadau tebyg ar ymarferwyr cyffredinol y GIG yng Nghymru i'r rhai sydd wedi'u cyflwyno yn Lloegr yn sicrhau, felly, fod y trefniadau ar gyfer ragnodi a rhoi meddyginiaethau atal y glasoed yng Nghymru a Lloegr yr un fath, gan gadw unrhyw ddryswch i'r lleiaf ymhlith ymarferwyr cyffredinol, fferyllfeydd a chleifion.

2.11 Byddai hefyd yn caniatáu i driniaeth barhau ar gyfer unrhyw blentyn neu berson ifanc y gellid barnu ei fod mewn perygl o niwed ac, yn y tymor hwy, bydd yn darparu ar gyfer trefniadau posibl ar gyfer gofal a rennir rhwng ymarferwyr cyffredinol y GIG a gwasanaethau rhywedd arbenigol tra'n atal ymarferwyr cyffredinol y GIG rhag cychwyn triniaeth yn amhriodol, y tu allan i wasanaethau arbenigol.

2.12 Nid yw dileu'r cyfyngiadau ar ragnodi tabledi cyanocobalamin ar gyfer diffyg fitamin B12 yn gysylltiedig â thrin dysfforia rhywedd neu anghyfathiant rhywedd. Yn draddodiadol, mae diffyg fitamin B12 wedi'i drin gan ddefnyddio pigladau fitamin B12 (hydrocscobalamin), gyda thriniaeth drwy'r geg ar gael ar y GIG ar gyfer figaniaid a phobl â diffyg fitamin B12 o darddiad deietegol yn unig. Mae newidiadau i ymarfer bellach yn golygu bod triniaeth drwy'r geg yn cael ei hystyried yr un mor effeithiol â thriniaeth chwistrelladwy ac mae'n fwy addas ar gyfer rhai cleifion. O'r herwydd, mae'r cyfyngiad ar ragnodi triniaeth drwy'r geg gan ymarferwyr cyffredinol yn cael ei ddileu.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.2 Mae rheoliad 2 yn diwygio'r tabl yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (cyffuriau neu feddyginiaethau sydd i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig) sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau pryd y caniateir i ragnodwyr awdurdodedig mewn meddygfeydd sy'n dal contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol archebu cyffuriau a meddyginiaethau a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl ac sydd wedi'u gwneud o analogau hormonau sy'n rhyddhau gonadotroffin (GnRH), neu sy'n cynnwys analogau GnRH, ar gyfer cleifion o dan 18 oed, os ydynt yn cael eu rhagnodi at ddiben atal y glasoed mewn cysylltiad â dysfforia rhywedd, anghyfathiant rhywedd neu gyfuniad o'r ddau.

3.3 Mae rheoliad 2(2)(d) yn dileu'r cyfyngiad ar archebu Tabledi Cyanocobalamin ar gyfer trin neu atal diffyg fitamin B12.

3.4 Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud y Rheoliadau o dan adrannau 46(2), 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae dysfforia rhywedd yn derm sy'n disgrifio ymdeimlad o anesmwythder sydd gan berson oherwydd diffyg cyfatebiaeth rhwng ei ryw biolegol a'i hunaniaeth rhywedd. Gall yr ymdeimlad hwn o anesmwythder neu anfodlonrwydd fod mor ddwys fel y gall arwain at iselder a gorbryder a chael effaith niweidiol ar fywyd pob dydd.

4.2 Efallai y bydd rhai pobl â dysfforia rhywedd, ond nid pob un, am ddefnyddio hormonau ac weithiau llawdriniaeth i fynegi eu hunaniaeth rhywedd. Cyn mis Mawrth 2024, gallai gwasanaethau hunaniaeth rhywedd y GIG fod wedi rhagnodi meddyginiaethau a elwir yn analogau hormon sy'n rhyddhau gonadotroffin (GnRH) ar gyfer rhai plant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd parhaus. Roedd y meddyginiaethau hyn y cyfeirir atynt weithiau fel meddyginiaethau atal y glasoed yn cael eu rhagnodi ar ôl cyfnod penodol o ddatblygiad y glasoed, ochr yn ochr â chymorth seicogymdeithasol a seicolegol, i atal cynnydd y glasoed a gohirio datblygiad nodweddion rhywiol eilaidd.

4.3 Mae gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu comisiynu gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a'u darparu gan GIG Lloegr. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn darparu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i blant a phobl ifanc yn unig drwy GIG Lloegr gyda gwasanaethau i gleifion Cymru yn cyd-fynd â rhai GIG Lloegr.

4.4 Mewn ymateb i wendid y dystiolaeth sy'n sail i ddefnyddio meddyginiaethau atal y glasoed, a goblygiadau hirdymor hyn, ym mis Ionawr 2020 dechreuodd GIG Lloegr adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth gyhoeddedig ar ddefnyddio meddyginiaethau atal y glasoed a hormon(au) gwryweiddio/benyweiddio ymhlith plant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd i lywio safbwynt polisi ar eu defnyddio yn y dyfodol. Dr Hilary Cass arweiniodd yr adolygiad.

4.5 Cyhoeddwyd Adolygiad Cass ym mis Ebrill 2024.

4.6 Gwnaeth Adolygiad Cass argymhellion ar sut i wella gwasanaethau hunaniaeth rhywedd y GIG a sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd neu sydd â dysfforia rhywedd yn cael gofal o safon uchel, sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n ddiogel, yn holistaidd, ac yn effeithiol.

4.7 Ar ôl i adroddiad interim Adolygiad Cass gael ei gyhoeddi, ymgynghorodd GIG Lloegr ar bolisi clinigol ar ddefnyddio meddyginiaethau atal y glasoed ac fe'i rhoddodd ar waith wedi hynny. Mae'r polisi yn ei gwneud yn glir na fydd y meddyginiaethau hyn yn cael eu rhagnodi bellach fel mater o drefn fel rhan o wasanaethau rhywedd y GIG i blant a phobl ifanc. Er nad yw polisi GIG Lloegr yn caniatáu rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed fel mater o drefn, gellir eu rhagnodi mewn amgylchiadau unigol yn dilyn cais cyllido unigol (IFR).

4.8 Yn ogystal â gweithredu polisi wedi'i ddiweddarau'r GIG yn Lloegr, gwnaeth yr adolygiad argymhellion penodol yn ymwneud â rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed i blant drwy wasanaethau rhywedd preifat y DU (h.y. rhai nad ydynt yn perthyn i'r GIG) a chan ragnodwyr tramor nad oeddent wedi'u cofrestru â rheoleiddwyr y DU, a'r angen i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU a rheoleiddwyr proffesiynol i sicrhau bod rhagnodi yn briodol ac yn cyd-fynd â pholisi diwygiedig y GIG.

4.9 Ar 29 Mai 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU gyfyngiadau brys ar werthu a chyflenwi analogau GnRH pan gânt eu defnyddio i atal y glasoed fel

rhan o drin anghyfathiant rhywedd neu ddysfforia rhywedd ymhlith plant a phobl ifanc o dan 18 oed. Daeth y cyfyngiadau sy'n effeithio ar ragnodi preifat gan ragnodwyr cofrestredig yn y DU a'r tu allan i'r DU i rym ar 3 Mehefin 2024.

4.10 Ochr yn ochr â'r cyfyngiadau ar ragnodi preifat gan ragnodwyr cofrestredig yn y DU a'r tu allan i'r DU, cyflwynwyd Rheoliadau yn Lloegr sy'n gosod cyfyngiadau ar ragnodi analogau GnRH gan ymarferwyr cyffredinol y GIG yn Lloegr sy'n eu gwahardd rhag cychwyn presgripsiynau newydd ar gyfer hormonau atal y glasoed ymhlith plant a phobl ifanc. Bwriad Llywodraeth Cymru yw gwneud Rheoliadau sy'n gosod cyfyngiadau tebyg ar ymarferwyr cyffredinol y GIG yng Nghymru.

4.11 Bydd y Rheoliadau'n gwella diogelwch drwy sicrhau bod meddyginiaethau atal y glasoed yn cael eu rhagnodi yn unol â pholisi clinigol GIG Lloegr ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddant yn atal rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed yn amhriodol i blant a phobl ifanc y tu allan i wasanaethau hunaniaeth rhywedd holistaidd, gan wella effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd.

4.12 Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael eu trin yn yr un ffordd ni waeth ym mha ardal bwrdd iechyd y maent yn byw. Byddant hefyd yn cael eu trin yn yr un ffordd â chleifion yn Lloegr, gan hyrwyddo tegwch.

4.13 Mae swyddogion wedi ystyried effaith debygol y cyfyngiad brys ar y galw am bresgripsiynau ymarferwyr cyffredinol. Mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) yn cynghori ymarferwyr cyffredinol na ddylent ragnodi meddyginiaethau atal y glasoed fel mater o drefn ar gyfer anghyfathiant rhywedd na dysfforia rhywedd ymhlith plant a phobl ifanc. Mae swyddogion yn disgwyl y bydd y mwyafrif helaeth o ymarferwyr cyffredinol eisoes yn dilyn y cyngor gan yr RCGP. Fodd bynnag, mae swyddogion yn ystyried ei bod yn debygol y bydd rhai ymarferwyr cyffredinol o dan bwysau cynyddol gan rai cleifion a'u teuluoedd i ragnodi ar ôl i'r cyfyngiadau ledled y DU ddod i rym sy'n cyfyngu ar bresgripsiynau preifat a phresgripsiynau o'r tu allan i'r DU, ac y byddant efallai, o ganlyniad, yn gwneud hynny.

4.14 Canfu Adolygiad Cass mai gwan iawn yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer plant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd ac anghyfathiant rhywedd a phwysleisiodd hefyd bwysigrwydd darparu gofal holistaidd gan gynnwys cymorth seicogymdeithasol a seicolegol. Mae'n annhebygol y bydd cymorth arbenigol o'r fath ar gael gan ymarferwyr cyffredinol sy'n golygu y byddai meddyginiaethau atal y glasoed yn cael eu rhagnodi mewn ffordd a allai fod yn anniogel.

4.15 Mewn rhai achosion, efallai y bydd parhau â phresgripsiwn yn briodol, er enghraifft pan gychwynwyd triniaeth cyn i'r cyfyngiadau ledled y DU ddod i rym a bo angen clinigol y cytunwyd arno i barhau â'r driniaeth gan gynnwys pan fo ymarferydd cyffredinol yn rhagnodi yn unol â chytundeb gofal a rennir a wnaed gyda gwasanaeth hunaniaeth rhywedd GIG. Efallai y bydd rhagnodi gan

ymarferwyr cyffredinol hefyd yn briodol pan fo'n digwydd yng nghyd-destun treial clinigol fel yr argymhellodd Adolygiad Cass.

4.16 Bydd y cynnig i gyfyngu ar ragnodi analogau GnRH gan ymarferwyr cyffredinol yn sicrhau pan gânt eu rhagnodi ar gyfer triniaeth plant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd neu anghyfathiant rhywedd y gwneir hynny'n ddiogel fel rhan o'u gofal holistaidd. Pan ddarperir gofal yn y ffordd hon mae'n fwy tebygol o nodi a yw dilyn llwybr meddygol yn hytrach na llwybr cymdeithasol neu seicogymdeithasol er lles pennaf plentyn neu berson ifanc. Mae hefyd yn fwy tebygol o nodi unrhyw anawsterau y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi bod trwyddynt, megis colli rhiant, salwch trawmatig, diagnosis o niwroamrywiaeth ac ynysigrwydd neu fwlio yn yr ysgol, ac yn fwy tebygol o allu mynd i'r afael â'r rhain gan arwain at fanteision hirdymor i unigolion.

4.17 Mae'r cynnig yn helpu i atal ymyrraeth feddygol a allai fod yn ddiangen ac na ellir efallai ei gwrthdroi, ond gan barhau i ddarparu gofal holistaidd, cefnogol i bawb sydd ei angen.

4.18 Mae'r cynigion yn atal meddygoli plant a phobl ifanc y gallai eu hanawsterau eraill lluosog fod yn amlygu eu hunain drwy benbleth am rywedd a thralod sy'n gysylltiedig â rhywedd.

4.19 Nid yw'r cynigion ond yn ymwneud ag a ddylai ymarferwyr cyffredinol y GIG ddarparu meddyginiaethau atal y glasoed ac, os felly, o dan ba amgylchiadau. Nid yw'r cynigion yn cyfyngu ar fynediad at feddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer dysfforia rhywedd nac anghyfathiant rhywedd pan gânt eu cychwyn fel rhan o gynllun triniaeth a oruchwylir gan wasanaethau hunaniaeth rhywedd arbenigol y GIG neu pan ddechreuodd y plentyn neu'r person ifanc driniaeth cyn i'r cyfyngiad ledled y DU ar ragnodi preifat ddod i rym. Maent felly wedi cael eu datblygu yn dilyn trafodaethau â Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a Fferylliaeth Gymunedol Cymru (sy'n cynrychioli fferyllfeydd sy'n rhoi'r meddyginiaethau hyn) y mae'r newidiadau hyn yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Mae'r cynigion hefyd yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan yr RCGP a'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

4.20 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad â phersonau i gynrychioli buddiannau'r rhai a allai fod angen meddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer dysfforia rhywedd. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn adlewyrchu arferion da derbyniedig ac nid ydynt yn gyfyngiad nac waharddiad llwyr ar feddyginiaethau atal y glasoed, ond yn gyfyngiad ar eu rhagnodi gan ymarferwyr cyffredinol y GIG. Bydd gwasanaethau rhywedd arbenigol yn parhau i allu gwneud hynny pan fo'n briodol yn glinigol. Mae'r cyfyngiadau ar ragnodi gan ymarferwyr cyffredinol yn cyd-fynd ag argymhellion Adolygiad Cass a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus helaeth.

Effaith

4.21 Mae angen y cynigion i sicrhau bod meddyginiaethau atal y glasoed yn cael eu rhagnodi yn unol â pholisi clinigol y GIG ar gyfer plant a phobl ifanc. Byddant yn atal rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed yn amhriodol i blant a

phobl ifanc y tu allan i wasanaethau hunaniaeth rhywedd holistaidd, gan wella effeithiolrwydd a diogelwch ac atal ymyriadau meddygol diangen.

4.22 Cefnogir y cynigion gan y dystiolaeth a gasglwyd drwy Adolygiad Cass.

4.23 Bydd y cynigion yn cael effaith gyfyngedig ar ymarferwyr cyffredinol a fferyllfeydd sy'n rhagnodi ac yn rhoi analogau GnRH ar gyfer cyflyrau heblaw anghyfathiant rhywedd. Mae hyn gan y bydd yn rhaid i ymarferwyr cyffredinol anodi eu presgripsiynau i ddangos eu bod ar gyfer rheswm heblaw dysfforia rhywedd neu anghyfathiant rhywedd mewn plentyn neu berson ifanc. Pan na fydd presgripsiynau'n cael eu hanodi fel hyn, efallai y bydd oedi bach cyn rhoi presgripsiynau. Rydym yn disgwyl mai dros dro fydd unrhyw effaith o'r fath wrth i ymarferwyr cyffredinol ymgyswddo â'r gofynion newydd.

4.24 Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael eu trin yn yr un ffordd ni waeth ym mha ardal bwrdd iechyd y maent yn byw. Byddant hefyd yn cael eu trin yn yr un ffordd â chleifion yn Lloegr, gan hyrwyddo tegwch.

Dyletswydd Ansawdd

4.25 Amlygodd Adolygiad Cass bryderon sylweddol ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir i blant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd neu anghyfathiant rhywedd. Roedd y pryderon hynny'n ymwneud yn rhannol â diffyg ymagwedd holistaidd at ofal pan ragnodwyd meddyginiaethau atal y glasoed heb i'r gwasanaethau cymorth seicolegol a seicogymdeithasol priodol fod ar gael.

4.26 Bydd y Rheoliadau hyn yn gwella ansawdd drwy gyfyngu ar rhagnodi y tu allan i'r mecanweithiau a argymhellir gan Adolygiad Cass y bwriedir iddynt wella ansawdd gofal.

4.27 Bydd y cynigion yn sicrhau gofal effeithiol drwy osgoi ymyriadau meddygol diangen y gallai fod angen eu gwrthdroi yn y dyfodol. Gall y cynigion hefyd leihau nifer yr achosion o niwed na ellir ei wrthdroi a allai ddeillio o driniaeth.

4.28 Mae'r cynigion yn cefnogi'n benodol yr argymhellion sy'n ymwneud â'r angen am ymchwil i fanteision a niwed y defnydd o feddyginiaethau atal y glasoed ymhlith plant a phobl ifanc.

4.29 Bydd y Rheoliadau hyn yn gwella **diogelwch** drwy sicrhau bod meddyginiaethau atal y glasoed yn cael eu rhagnodi yn unol â pholisi clinigol y GIG ar gyfer plant a phobl ifanc.

4.30 Bydd y Rheoliadau hyn yn atal rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed yn amhriodol i blant a phobl ifanc y tu allan i wasanaethau hunaniaeth rhywedd holistaidd sydd mewn sefyllfa well nag ymarferwyr cyffredinol i ddarparu gofal a chymorth arbenigol wrth rhagnodi meddyginiaethau atal y glasoed, gan wella **effeithiolrwydd** gwasanaethau iechyd.

4.31 Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael eu trin yn yr un ffordd ni waeth ym mha ardal bwrdd iechyd y maent yn byw. Byddant hefyd yn cael eu trin yn yr un ffordd â chleifion yn Lloegr, gan hyrwyddo **tegwch**.

4.32 Ystyriwyd rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid yw gwneud y Rheoliadau hyn yn newid hawl unrhyw blentyn na pherson ifanc i gael triniaeth. Byddant yn atal ymarferwyr cyffredinol y GIG rhag cychwyn triniaeth yn amhriodol neu'n anniogel y tu allan i wasanaethau arbenigol sy'n darparu'r math o ofal holistaidd y mae ar y garfan hon o gleifion ei angen, fel yr argymhellodd Adolygiad Cass. Felly, mae swyddogion yn fodlon nad oes unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt wrth wneud y Rheoliadau hyn.

5. Ymgynghori

5.1 Mae'r cynnig yn effeithio fwyaf ar ymarferwyr cyffredinol a fferyllwyr cymunedol sy'n gweithio yng Nghymru drwy gyfyngu ar y ffordd y maent yn rhagnodi ac yn rhoi meddyginiaethau o'r enw analogau hormon sy'n rhyddhau gonadotroffin (GnRH) sydd wedi'u defnyddio i atal y glasoed ymhlith plant a phobl ifanc â dysfforia rhywedd neu anghyfathiant rhywedd.

5.2 Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr ymarferwyr cyffredinol (Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru) a fferyllwyr cymunedol (Fferylliaeth Gymunedol Cymru) ynghylch y bwriad i osod cyfyngiadau ar ragnodi a rhoi'r meddyginiaethau hyn ym maes gofal sylfaenol. Ni chodwyd unrhyw bryderon yn ystod yr ymgynghoriad, ac nid oes gan gynrychiolwyr y naill gontractwr na'r llall unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion.

5.3 Ni chynhelir ymgynghoriad â phersonau i gynrychioli buddiannau'r rhai a allai fod angen meddyginiaethau atal y glasoed ar gyfer dysfforia rhywedd. Nid yw'r cynigion yn gyfyngiad nac waharddiad llwyr ar feddyginiaethau atal y glasoed, ond yn gyfyngiad ar eu rhagnodi gan ymarferwyr cyffredinol y GIG. Bydd gwasanaethau rhywedd arbenigol yn parhau i allu gwneud hynny.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar ragnodi preifat gan ragnodwyr cofrestredig yn y DU a'r tu allan i'r DU a ddaeth i rym ar 3 Mehefin 2024 yn fater a gedwir yn ôl.

6.2 Yn dilyn Adolygiad Cass, cyflwynwyd Rheoliadau yn Lloegr sy'n gosod cyfyngiadau ar ragnodi analogau GnRH gan ymarferwyr cyffredinol y GIG yn Lloegr sy'n eu gwahardd rhag cychwyn presgripsiynau newydd ar gyfer hormonau atal y glasoed ymhlith plant a phobl ifanc. Er mwyn sicrhau gwasanaethau cydradd rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru mae'n briodol cyflwyno deddfwriaeth debyg yng Nghymru i osod cyfyngiadau ar ragnodi analogau GnRH.

6.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn cefnogi argymhellion Adolygiad Cass. Bydd y Rheoliadau'n atal ymarferwyr cyffredinol y GIG rhag cychwyn triniaeth yn amhrifodol neu'n anniogel y tu allan i wasanaethau arbenigol sy'n darparu'r math o ofal holistaidd y mae ar y garfan hon o gleifion ei angen, fel yr argymhellodd Adolygiad Cass.

6.4 Mae'r opsiwn i beidio â gwneud Rheoliadau sy'n cyfyngu ar ragnodi hormonau atal y glasoed gan ymarferwyr cyffredinol wedi cael ei ystyried a'i ddiystyru oherwydd ystyrir y gallai'r cyfyngiadau ledled y DU ar ragnodi preifat gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n ceisio presgripsiynau gan eu hymarferydd cyffredinol. Bydd y cyfyngiadau'n atal ymarferwyr cyffredinol rhag cychwyn presgripsiynau newydd heblaw pan fo triniaeth holistaidd yn cael ei darparu drwy wasanaethau hunaniaeth rhywedd fel y rhagwelwyd gan Adolygiad Cass.

7. Costau a manteision

7.1 Nid oes unrhyw gostau nac arbedion sylweddol yn gysylltiedig â'r cynigion.

8. Asesu'r Gystadleuaeth

8.1 Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol felly nid oes asesiad o'r gystadleuaeth wedi'i gwblhau.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

9.1 Nid oes angen adolygiad ar ôl gweithredu ar gyfer y ddeddfwriaeth hon.